

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 3ydd o Dachwedd, 2022.

1. **Presennol** John Jones (Cadeirydd), Richard Parry, Edward Evans (Bryncir), Richard Williams (Prenteg), Huw Pritchard (Pentrefelin), Michael Jones (Garndolbenmaen), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Dafydd Thomas, Iddon Edwards (Penmorfa)

Croesawyd John Till i'w gyfarfod cyntaf ac fe arwyddodd ddatganiad derbyn swydd.

2. **Ymddiheuriadau** Manon Jones Evans, Sarah Jones (Pentrefelin), Clifford Williams (Garndolbenmaen), Gwilym Evans (Prenteg), Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), Stephen Churchman, June Jones (Cynghorwyr Cyngor Gwynedd)

3. **Ddim yn bresennol** Neb

4. **Datgan buddiant** Neb

5. **Cywirdeb cyn-gofnodion** Richard Parry yn cynnig eu bod yn gywir a Richard Williams yn eilio.

6. **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion**

Etholiad 2022: Wedi derbyn ymatebiad gan Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau, Cyngor Gwynedd parthed gwelliannau i'r drefn etholiadol a'r anfoneb o £642.00. Anfodlonrwydd cryf ymysg y cynghorwyr i'r ymatebiad. Clerc i gysylltu yn ôl hefo Cyngor Gwynedd.

John Ystumlllyn: Tri bocs plannu pren wedi ei brynu ar gyfer y rhosod gan Weithdy Al, Pentrefelin. Y rhosod wedi cael eu plannu a'u gosod. Dau rosyn naill ochr i'r fainc yng nghanol Pentrefelin a'r trydydd nesaf i'r fainc ger Bryn Tyddyn.

Soniwyd bod Ffion Gwyn, Arlunydd lleol wedi cynnig gwneud arwydd ar gyfer y rhosod am gomisiwn a bod grantiau ar gael ar gyfer prosiectau fel hyn. Clerc i gysylltu â Ffion Gwyn am ragor o wybodaeth.

Llwybrau Cyhoeddus: Clerc wedi cysylltu hefo Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy o Gyngor Gwynedd. Dim ymatebiad hyd yma i ba bryd caiff y gwaith ei gwblhau ar lwybr rhif 5 a pha bryd y bydd yn ail ymweld â llywbr 75. Clerc i ddilyn y mater i fyny.

Gwaith Dŵr, Cwmystradllyn: Clerc wedi cysylltu hefo Gwenan Davies o Dŵr Cymru. Tîm Cronfeydd Dŵr wedi ymweld â'r safle ac wedi cadarnhau y bydd y gwaith o lenwi tyllau yn y ffordd lawr at y llyn yn cael ei gwblhau pan fydd tar ar gael. Dywedwyd yn y cyfarfod bod ochrau'r ffordd lawr at y llyn bellach wedi'u torri. Adroddwyd pryder bod Llysiau'r Gingroen yn tyfu ger yr hen waith dŵr. Clerc i gysylltu gyda Dŵr Cymru i ofyn iddynt ei drin a chael gwared ohono.

Lôn Tabor, Pentrefelin: Adroddwyd bod y gwaith o godi'r cerrig wedi ei gwblhau.

Bryn Tyddyn, Pentrefelin: Tîm Tacluso Ardal Ni, Cyngor Gwynedd wedi bod yn gwneud y gwaith o glirio chwyn ac ati wythnos yn cychwyn y 24ain o Hydref. Gwaith heb ei gwblhau i safon. Clerc i gysylltu.

Blychau Ffôn Cwm Ystradllyn a Chwm Pennant: Derbyniwyd ymateb gan BT yn dweud na fydd y blychau ffôn yma yn cael eu tynnu, am nad yw'r pedwar prif weithredydd ffonau symudol methu darparu cwmpas rhwydwaith lawn yn yr ardaloedd yma. Croesawyd y newyddion yma.

Pont y Traeth, Prenteg: Clerc wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd. Y mater wedi'i anfon ymlaen at Ymgynghoriaeth Gwynedd, heb dderbyn ymateb hyd yma. Clerc i ddilyn y mater yma i fyny.

Draen Squires Gate, Prenteg: Clerc wedi cysylltu gyda Phrifyrdd Dwyfor. Mae clirio'r draen yn mynd i gael ei roi ar y rhestr waith.

Parcio Garndolbenmaen: Clerc wedi cysylltu gydag Lloyds Coaches yn dilyn y digwyddiad. Dim cwyn swyddogol wedi ei wneud. Adroddwyd gan y cynghorwyr fod y sefyllfa barcio wedi gwella dipyn ers y digwyddiad gyda'r bws. Cafwyd sgwrs ffôn gydag Andrew Gregson, Uwch Beiriannydd Traffig, Cyngor Gwynedd. Y teimlad oedd bod preswylwyr yn mynd i wrthwynebu unrhyw fesurau, oherwydd dyma sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Penderfynwyd ysgrifennu llythyr i'w gynnwys yn y papurau bro yn gofyn yn garedig i breswylwyr i barcio ar un ochr y ffordd yn unig.

Bancio ar-lein: Clerc wedi llenwi ffurflen gais i gael teclyn diogelwch er mwyn cofrestru ar gyfer bancio ar-lein. Ffurflen gais wedi ei arwyddo gan ddau gynghorydd.

Hwb Eifionydd: Clerc wedi cysylltu gyda Chyngor Cymuned Llanystumdwy, Cyngor Tref Criccieth a Phorthmadog. Wedi derbyn ymateb gan Llanystumdwy a Chriccieth yn nodi eu bod yn rhannu'r un pryderon. Adroddodd Criccieth bod dau gynghorydd wedi cyfarfod gyda'r Rheolwr Hwb Eifionydd wythnos diwethaf ac y byddent yn adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn ar yr 8fed o Dachwedd. Clerc i ddilyn y mater yma.

7. Mynwentydd

Gwaith ar fedd ym Mynwent Bethel heb ei gwblhau - John Jones i barhau i geisio cysylltu gyda Martin Kerr.

8. Llwybrau Cyhoeddus: Dim i'w adrodd

9. Adroddiad Pentrefi

Pentrefelin: Adroddwyd fod y blwch hysbysu wedi ei ddifrodi - Huw Pritchard i gysylltu ag Alwyn o Weithdy AI am bris.

Golan/Cwmystradllyn: Dim i'w adrodd

Bryncir: Dim i'w adrodd.

Penmorfa: Dim i'w adrodd

Prenteg: Dim i'w adrodd

Garndolbenmaen: Mynegwyd pryder ynglŷn â llawer iawn o loriau yn teithio fyny'r ffordd tuag at Fynydd Glas. Clerc i wneud ymholiadau hefo'r asiantaethau perthnasol i wneud yn siŵr fod y gwaith yn cael ei adolygu a'i archwilio yn rheolaidd.

Preswylydd wedi mynegi pryder wrth gynghorydd am yr holl oleuadau sydd o amgylch Bryn Awelon oherwydd eu bod o fewn ardal awyr dywyll. Awgrymwyd bod y preswylydd yn ysgrifennu at y Cyngor Cymuned.

10. Dafarn Faig

Clerc wedi siarad gyda pherchennog y tir ger y gyffordd ac wedi anfon ei fanylion cyswllt ymlaen at Merfyn Morris o Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Dim mwy i'w adrodd. Clerc i ddilyn y mater i fyny.

11. Ffioedd Claddu

Penderfynwyd trefnu cyfarfod rhithiol o'r Is-bwyllgor Mynwentydd yn yr wythnos neu ddwy nesaf i adolygu'r ffioedd.

12. Cynllun Peilot Ardal Dwyfor

Clerc i drefnu cyfarfod rhithiol gyda Catrin Huws o Grŵp Cynefin ar nos Fawrth y 15fed o Dachwedd am 7 o'r gloch yr hwyr.

13. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Cyfarfodydd Aml Leoliad

Adroddodd y clerc bod y Ddeddf uchod yn ei gwneud hi yn ofynnol i gyfranogwyr allu ymuno â chyfarfodydd o bell ac y dylai'r Cyngor Cymuned gymryd camau rhesymol i alluogi pobl ymuno o leoliad arall. Iddon Edwards i wneud ymholiadau parthed cyswllt band llydan.

14. Cyllideb 2023/2024

Adroddodd y Clerc y bydd yn paratoi'r gyllideb i gyflwyno i'r Is-bwyllgor Cyllid ac yna i'r Cyngor Llawn ym mis Ionawr.

Gofynnodd i'r Cynghorwyr os oedd angen cynnwys cyllid ar gyfer unrhyw waith ychwanegol i'r arferol yn un o'r wardiau. Awgrymwyd y canlynol ar y noson:

- Cysylltiad Band Llydan i hwyluso cyfarfodydd aml-leoliad
- Bwrdd Gwybodaeth ar gyfer Pentrefelin/Ynys Cynhaearn
- Baneri Croeso ayyb i groesawu'r Eisteddfod i Lŷn ag Eifionydd

Cynghorwyr i gysylltu â'r clerc os oes unrhyw awgrymiadau eraill.

15. Gohebiaeth

Gohebiaeth

- a. Cyngor Gwynedd - Peter Johnstone - Parthed Ffliw Adar a Cheidwad Dodfenod - wedi ei anfon ymlaen 5/10/22

- b. Cyngor Gwynedd - Rhybudd Cau Ffordd Ddi-ddosbarth gyferbyn â Glan y Nant, Pentrefelin - 17/10/22 rhannwyd gyda chynghorwyr Pentrefelin.

Gohebiaeth Ychwanegol

- a. Llywodraeth Cymru - Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
- b. Unllais - Rhestr Hyfforddiant Hydref, Tachwedd a Rhagfyr
- c. Cynigion Diwygiedig Ffiniau Etholaeth Seneddol - ymgynghoriad gyda dyddiad cau 15/11/2022

Cynllunio

Rhestrau: 3/10, 10/10, 17/10, 24/10

- a. **Chwarel Llecheiddior, Bryncir** - C22/0977/36/AC Cais o dan Adran 73 i amrywio amodau 2, 5 a 37 o ganiatâd cynllunio C12/0495/36/MW - Dim gwrthwynebiad ar yr amod bod amodau llym yn cael eu gosod ynghlwm ar caniatâd cynllunio i reoli llwch sydd yn cael ei adael ar y ffordd/palmant/ffenestri a drysau tai ym Mryncir.
- b. **Ymgynghoriad Cyn Cais Cynllunio - Galliford Try Telecoms - Pen y Gaer, Garndolbenmaen** - dyddiad cau 7/11/2022 - Dim gwrthwynebiad.
- c. **NP2/16/464** - Gosod tŵr latis 20m o uchder sy'n cynnal 6 antena, 4 dysgl trawsyrro, 2 cwprdd offer, 1 caban mesur a datblygiad ategol iddo gan gynnwys generadur a thanc tanwydd cysylltiedig, llecyn llawr caled, trac mynediad newydd a chompownd gyda ffens 2.4m o uchder gyda wal gabion- Tir yn Isallt Fawr, Golan, Garndolbenmaen. LL51 9AQ - Dim gwrthwynebiad.
- ch. **NP2/16/T314E** - diwygiad i'r cais cynllunio gwreiddiol i gynnwys balwstrad gwydr ar ben wal teras. - Gwrthwynebu.

Materion ariannol

Ceisiadau am arian:

- a. **Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd:** Penderfynwyd ymateb yn egluro ein bod dim ond yn talu arian allan unwaith y flwyddyn a hynny ym mis Chwefror bob blwyddyn. Clerc i wneud mwy o ymholiadau.
- b. **Adran Urdd Eryri:** Clerc wedi anfon ffurflen gais rhoddion ariannol atynt.
- c. **Eisteddfod Garndolbenmaen a'r Cylch:** Clerc wedi anfon ffurflen gais rhoddion ariannol atynt. Wedi derbyn mantolen ariannol.

Monitro'r Gyllideb: Dim gorwariant

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc (x2): £516.04

Ffôn (x2): £20.00

Cyfrifiadur (x2): £50.00

HMRC (x2): £128.80

Yr Wylan: £32.00

Gweithdy AI: £110.00

Derbyniadau: Dim

Balansau Cyfrifon Banc:

Cadw: £16,852.29 **Cyfredol:** £23,547.64

Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg / wefan

- Etholiad 2022
- Cais Cynllunio Chwarel Bryncir
- Rhosyn Jac Ystumlllyn - Pentrefelin